# System Rheoli Amgylcheddol 8.1.5 Gweithdrefn Defnyddio'r Storfa Gwastraff Cemegol

Diweddarwyd: Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Ben Harris (Swyddog Cynaliadwyedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Cyf Cymal:** | Ecocampus ac ISO 14001(2015) |
| **PEIDIWCH AG ARGRAFFU'R DDOGFEN HON ONI BAI FOD HYN YN ANGENRHEIDIOL** | |



# 1 Diben

Diffinio rhwymedigaethau cyfreithiol a gweithdrefnau Prifysgol Abertawe mewn perthynas â storio, casglu a gwaredu cemegau a thoddyddion gwastraff a sylweddau cemegol peryglus eraill. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i gemegau a thoddyddion gwastraff a sylweddau cemegol peryglus eraill a gynhyrchir gan y Brifysgol.

# 2 Cyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| Yr holl staff perthnasol | Sicrhau bod yr holl wastraff cemegol peryglus wedi'i bacio, ei labelu, ei gludo a'i waredu'n gywir yn unol â'r camau yn y weithdrefn hon. |
| Y Tîm Cynaliadwyedd | Darparu cymorth i sicrhau bod pob adran yn mynd â chemegau a thoddyddion gwastraff a sylweddau peryglus eraill i'r storfa gwastraff cemegol berthnasol.<br><br>Trefnu i'r cemegau gael eu pecynnu a'u gwaredu wedi hynny, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ac â'r weithdrefn hon.<br><br>Mae cyfrifoldebau ychwanegol yn cynnwys:<br>• Cynnal gwiriadau Dyletswydd Gofal.<br>• Hysbysu a chofrestru gyda'r awdurdodau perthnasol.<br>• Darparu'r EWC priodol ar gyfer gwaredu (lle y bo'n briodol) |
| Chemcycle a WasteCare | Darparu cemegydd cymwys i becynnu cemegau, ac wedyn, gasglu a chludo gwastraff cemegol i'w waredu.<br><br>Sicrhau bod nodiadau llwyth yn cael eu cwblhau, eu llofnodi a'u hanfon at y Tîm Cynaliadwyedd. |
| Mitie (y prif gontractwr gwastraff) | Darparu cemegydd cymwys i becynnu cemegau, ac wedyn, gasglu a chludo gwastraff cemegol i'w waredu.<br><br>Sicrhau bod nodiadau llwyth yn cael eu cwblhau, eu llofnodi a'u hanfon at y Tîm Cynaliadwyedd. |

# 3 Dyletswydd Gofal a Chyfrifoldeb Cyfreithiol

I sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'i Dyletswydd Gofal, fel y'i nodir yn Adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 rhan II, rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ei holl wastraff yn cael ei storio mewn modd a fydd yn ei atal rhag cael ei ryddhau neu ei ollwng tra bydd ar y safle neu'n cael ei storio.

- Rhaid sicrhau bod gwastraff yn cael ei gadw, ei drin, ei drosglwyddo neu ei waredu'n unol â thrwydded rheoli gwastraff neu awdurdod arall.

- Rhaid i wastraff fod dan reolaeth y deiliad bob amser ac ni ddylai achosi llygredd na niwed i'r amgylchedd.
- Rhaid i wastraff gael ei drosglwyddo i bobl awdurdodedig yn unig, megis cludwyr gwastraff cofrestredig neu weithrediadau gwaredu gwastraff trwyddedig â chaniatâd i dderbyn y math hwnnw o wastraff.
- Rhaid i ddisgrifiad ysgrifenedig digonol gyd-fynd ag unrhyw wastraff sy'n cael ei drosglwyddo/symud, a fydd yn caniatáu adnabod y gwastraff a'i drin yn gywir.

Rhaid i'r Brifysgol weithredu i ddiogelu gwastraff wedi'i storio rhag:

- cyrydu neu dreulio cynwysyddion gwastraff.
- gorlifo neu ollyngiad damweiniol neu drwytholchi damweiniol o wastraff nad yw wedi'i ddiogelu rhag y glaw.
- damwain neu'r tywydd yn achosi i gynhwysydd gwastraff dorri gan ryddhau'r gwastraff.
- gwastraff yn cael ei chwythu gan y gwynt neu'n cwympo wrth gael ei storio neu ei gludo.
- fandaliaid, lladron, plant, tresmaswyr neu anifeiliaid yn mynd â gwastraff ymaith.

Mae'r Ddyletswydd Gofal hon yn dechrau gyda'r sawl a gynhyrchodd y gwastraff ac ni ellir ei dirprwyo i eraill. Mae'r ddyletswydd hon yn orfodadwy o dan y gyfraith a gellir erlyn unigolion a'r Brifysgol am achosion o beidio â chydymffurfio. O ganlyniad, rhaid i'r Brifysgol (a'i staff a'i myfyrwyr) wneud pob ymdrech i gategoreiddio, didoli a storio gwastraff yn unol â'r safonau a bennir gan y ddeddfwriaeth gyfredol.

Cyn ei gasglu, rhaid didoli a storio gwastraff cemegol yn unol â'i gategori priodol yn storfeydd cemegol y Brifysgol er mwyn lleihau risg ac atal adweithiau cemegol. Darperir arweiniad pellach ar ddosbarthu a storio gwastraff cemegol gan WMGN20 - Arweiniad ar Ddosbarthu a Storio Gwastraff Cemegol a dogfen Llywodraeth y DU - "Technical Guidance WM3: Waste Classification - Guidance on the classification and assessment of waste".

# 4 Y Broses

## 4.1 Gweithgareddau Allweddol

Y Tîm Cynaliadwyedd:

- Penodi a rheoli'r Contractwr(wyr) Gwaredu Gwastraff trwyddedig.
- Cydlynu casglu a gwaredu gwastraff cemegol.
- Rheoli dogfennau gwastraff cemegol.
- Yn gyfrifol am y broses cymeradwyo gwaredu gwastraff cemegol i'r Storfeydd Gwastraff Cemegol, ac agor y storfeydd gwastraff ar yr adegau isod:
    - **Campws y Bae (yr iard wasanaeth) Bob dydd Mercher, 11am**
    - **Campws Singleton (Grove): Bob dydd Iau, 10am**

Cyfadrannau:

- Rhaid sicrhau bod ganddynt system ar waith i gynnal **Asesiad Risg Cemegol**[1] ar gyfer sylweddau peryglus a bod yr asesiadau'n nodi'r ffordd gywir o gael gwared ar y sylwedd.
- Rhaid sicrhau bod cemegau'n cael eu storio mewn cynhwysyddion addas a'u bod wedi'u labelu'n gywir yn barod i'w casglu.
- Rhaid sicrhau y gellir storio'r cyfaint disgwyliedig o wastraff cemegol a gynhyrchir yn ddiogel tan y diwrnod gwaredu a drefnwyd.
- Dylid mynd â gwastraff cemegol i'r storfa gwastraff cemegol briodol i'w waredu (Sylwer - ac eithrio cemegau risg uchel sy'n cael eu trafod ym mhwynt 4.2.5)
- Rhaid llenwi ffurflenni cais i waredu gwastraff cemegol yn gywir a'u dychwelyd i estates-waste@abertawe.ac.uk a rhaid bod cymeradwyaeth wedi'i sicrhau ymlaen llaw cyn mynd â gwastraff cemegol i'r man storio (darllenwch yr adran “Cymeradwyaeth ar gyfer Gwastraff Cemegol”).

## 4.2 Cyfarwyddiadau Gwaredu

Darperir canllaw fesul cam isod i'r weithdrefn i waredu gwastraff cemegol drwy Storfa Gwastraff Cemegol y Brifysgol;

1. Nodwch briodwedd perygl uniongyrchol pob eitem gwastraff
2. Cwblhewch y Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol yn gywir
3. E-bostiwch y ffurflen i estates-waste@abertawe.ac.uk i'w hasesu a'i chymeradwyo
4. Unwaith caiff y ffurflen ei chymeradwyo, sicrhewch fod y gwastraff wedi'i becynnu'n ddiogel a'i labelu
5. Cludo'r gwastraff i'r storfa mewn cynhwysydd priodol **gyda chopi papur o'r Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol wedi'i chwblhau**.
   - Ar gyfer Campws y Bae - dewch â'r gwastraff i'r iard wasanaeth gan wisgo Cyfarpar Diogelwch Personol.
   - Ar gyfer Campws Singleton - dewch â'r gwastraff i storfa wastraff Grove gan wisgo Cyfarpar Diogelwch Personol.
   - **Mae gwisgo cyfarpar diogelu personol yn ORFODOL wrth ddod â gwastraff i'w waredu**

Bydd cemegydd y contractwr gwastraff cemegol a benodwyd gan y Brifysgol yn dynodi'r Côd Gwastraff Ewropeaidd cywir a'i gymhwyso i'r gwastraff cyn symud y gwastraff o'r safle.

### 4.2.1 Cam 1 - Nodwch brif briodwedd beryglus pob eitem gwastraff

Darperir gwybodaeth yn WMGN20. Mae rhagor o arweiniad am ddosbarthu gwastraff peryglus a'r trothwyau uchaf ar gyfer y dosbarthiadau perygl gwahanol ar gael yn Atodiad 2 a Chanllaw Technegol WM3: Waste Classification ac yn WMGN20, Canllaw’r Brifysgol ar Ddosbarthu a Storio

[1] Cysylltwch â'r Arweinydd Iechyd a Diogelwch lleol am ragor o wybodaeth

Gwastraff Cemegol. Am fwy o gymorth, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

### 4.2.2 Cam 2 - Cwblhau'r Ffurflen Gwastraff Cemegol

Rhaid i wastraff cemegol y mae angen ei waredu gael ei nodi fesul eitem ar y **Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol**[2], gyda dolenni i Daflenni Data Diogelwch sy'n cydymffurfio â rheoliad REACH ar gyfer pob cemegyn.

### 4.2.3 Cam 3 - E-bostio'r ffurflen i'w hasesu a'i chymeradwyo

Dylid e-bostio'r ffurflen wastraff wedi'i chwblhau i estates-waste@abertawe.ac.uk i'w hasesu a'i chymeradwyo gan y Tîm Cynaliadwyedd. Mae'r meysydd gorfodol wedi'u hamlygu ar y ffurflen. Os na chaiff y meysydd hyn eu cwblhau'n gywir, efallai y bydd yn arafu'r gymeradwyaeth i waredu. Gall y tîm Cynaliadwyedd ofyn am fwy o wybodaeth a bydd yn adolygu pob ffurflen i sicrhau bod pob math o wastraff cemegol a restrir yn addas i'w dderbyn i'r storfa.

**Unwaith y caiff ei chymeradwyo, bydd y tîm yn rhoi amser i chi ddod i'r storfa.**


### 4.2.4 Cam 4 - Sicrhau bod gwastraff wedi'i labelu a'i becynnu'n ddiogel ac yn briodol

**Rhaid** i **bob math** o wastraff sy'n dod i'r storfa gael ei labelu'n glir gan nodi'r Briodwedd Beryglus.

**Ni dderbynnir unrhyw eitemau i'r storfa heb** Label Gwastraff Cemegol y Brifysgol wedi'i gwblhau.[3]

[2] Mae hon ar gael ar y tudalennau staff yn https://www.swansea.ac.uk/sustainability/sustainability-minimal-waste//

[3] Mae hwn ar gael yn https://www.swansea.ac.uk/sustainability/sustainability-minimal-waste/



SWANSEA UNIVERSITY CHEMICAL WASTE

| | | | |
|---|---|---|---|
| College/PSU: | | Contact name: | |
| Building: | | Date: | |
| Substance/ Contents | | Please state the pH level: <br> Please tick relevant hazards. ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ <br> Please tick the relevant. <br> Flammable ☐ non-Halogenated ☐ Halogenated ☐ <br> Aqueous: Acid ☐ Alkali ☐ Neutral ☐ <br> Oxidiser ☐ Toxic ☐ Water/Air reactive ☐ <br> **Does the aqueous liquid include Flammable solvent?** <br> ☐ (**MUST TICK**) | |
| Lab number: | | ID Quartzy: | |

ALL SECTIONS MUST BE COMPLETED / PLEASE ENSURE ALL CAPS ARE TIGHT

*Ffigur 1. Enghraifft o'r Label Gwastraff Cemegol.*

## Labelu: Enwau masnach / Anhysbys

## Enwau masnach:

Wrth waredu cemegyn/sylwedd sydd ag enw masnachol, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhestru ei hunaniaeth gemegol lawn yn hytrach na'r enw masnach yn unig ar y Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol a'r Label Gwastraff Cemegol. Bydd ffurflenni sy'n cynnwys enw masnach yn unig yn cael eu gwrthod gan y contractwr gwastraff cemegol.

Rhaid i chi gynnwys yr hyn y mae'r cemegyn yn ei gynnwys. Mae hyn i'w gael yn **Adran 3: Cyfansoddiad/gwybodaeth am gynhwysion** yn y Daflen Data Diogelwch cemegol (SDS) gyfatebol.

**Er enghraifft:**

Mae **TICKOPUR TR 13** yn enw masnachol ar gyfer deunydd glanhau, ond nid yw'r enw ar ei ben ei hun yn darparu unrhyw wybodaeth am gyfansoddiad cemegol y cynnyrch.

Mae defnyddio Adran 3 o Daflen Data Diogelwch TICKOPUR TR 13 yn darparu'r wybodaeth ganlynol am ei gynhwysion cyfansoddol:

**Hazardous components**

| CAS No | Chemical name | | | Quantity |
|---|---|---|---|---|
| | EC No | Index No | REACH No | |
| | Classification (Regulation (EC) No 1272/2008) | | | |
| 7732-18-5 | Water | | | 70-80 % |
| | 231-791-2 | | | |
| | | | | |
| 527-07-1 | Sodium gluconate | | | <5,0 % |
| | 208-407-7 | | *1 | |
| | | | | |
| 1310-73-2 | Sodium hydroxide; caustic soda | | | <5,0 % |
| | 215-185-5 | 011-002-00-6 | 01-2119457892-27 | |
| | Skin Corr. 1A; H314 | | | |
| 100085-64-1 | Cocobetainamido Amphopropionate | | | <5,0 % |
| | 309-206-8 | | * | |
| | Skin Irrit. 2, Eye Irrit. 2, Aquatic Acute 1; H315 H319 H400 | | | |
| 112-34-5 | 2-(2-butoxyethoxy)ethanol, diethylene glycol monobutyl ether | | | <5,0 % |
| | 203-961-6 | | 01-2119475104-44 | |
| | Eye Irrit. 2; H319 | | | |
| 111798-26-6 | Phosphoric acid ester, sodium-salt | | | <2,0 % |
| | - | | * | |
| | Skin Irrit. 2, Eye Dam. 1; H315 H318 | | | |
| 51981-21-6 | N,N-bis(carboxylatomethyl)-L-glutamate, Sodium salt | | | <1,0 % |
| | 257-573-7 | | 01-2119493601-38 | |
| | Met. Corr. 1; H290 | | | |

Yr elfennau sydd wedi'u hamlygu uchod yw'r wybodaeth y mae angen ei nodi ar y ffurflen waredu a'r label.

## Cemegau/sylweddau anhysbys:

Weithiau efallai y byddwch chi'n dod ar draws potel o hylif/solet heb label neu unrhyw wybodaeth adnabod. Yn yr achosion hyn, os ydych chi'n gwaredu gwastraff cemegol sy'n anhysbys, rhaid i chi wneud pob ymdrech resymol i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl am natur y cemegyn.

Nid yw'n dderbyniol labelu'r gwastraff fel 'Anhysbys' neu 'Powdrau Cymysg' er enghraifft.

Gall profion sylfaenol fel pH, disgyrchiant penodol, ymddangosiad, lliw, a yw'n mygu (wrth echdynnu) etc. ddarparu gwybodaeth werthfawr a all helpu i gategoreiddio'r sylwedd.

Er enghraifft, hylif anhysbys sy'n ddi-liw o ran ymddangosiad, sy'n mygu wrth ei agor ac sydd â pH 2.0. Gallech ddisgrifio'r sylwedd fel:

**'Anhysbys, ond sy'n debygol o fod yn asid anorganig dyfrllyd (e.e. HCl, HNO3) yn seiliedig ar nodweddion y sylweddau.'**

## Cynwysyddion Gwastraff Cemegol

Dylid storio gwastraff cemegol mewn cynwysyddion priodol yn unig y mae'n rhaid eu labelu'n glir ac yn addas ar gyfer y math o wastraff ynddynt

Rhaid i gynwysyddion fod yn addas ar gyfer y math o wastraff; felly, dylid dilyn y canllawiau canlynol:

- **Winchesters Gwydr:** gellir eu defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o gemegau, ac eithrio gwastraff asid hydrofflworig.
- **Winchesters Plastig:** addas ar gyfer asidau ac alcalïau. Fodd bynnag, ni ddylid eu defnyddio ar gyfer toddyddion cryf iawn neu gymysgeddau sy'n cynnwys toddyddion cryf iawn.
- Ni ddylid defnyddio cynwysyddion/poteli a ddyluniwyd ar gyfer solidau i storio gwastraff hylifol.
- Er mwyn lliniaru'r risg o or-bwyseddu, rhaid defnyddio capiau awyru er mwyn gallu rhyddhau pwysedd yn ddiogel.
- Ni ddylid gordynhau capiau poteli/cynwysyddion.

Pan ddefnyddir cynhwysydd (e.e. Winchester) ar gyfer gwastraff a oedd yn dal cemegyn arall o'r blaen, rhaid cadw at y canlynol:

- Mae'r cynhwysydd yn cael ei awyru a'i lanhau gan sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw weddillion a allai adweithio i'r gwastraff.
- Mae'r label cynnwys blaenorol naill ai:
  - Wedi'i ddileu'n llwyr, neu
  - Wedi'i ddinistrio i'r fath raddau nad oes modd ei ddarllen
- Gwiriwch ei fod yn ffisegol gadarn heb unrhyw graciau, tolciau na thyllau.
- Mae'r cynhwysydd yn gallu dal yr hylif yn dynn â chap neu gaead addas

Rhaid labelu pob cynhwysydd gwastraff yn glir fel 'gwastraff' a manylu ar gynnwys y cynhwysydd (e.e. gwastraff halogenaidd) a bod y symbolau perygl GHS priodol ynghlwm.

Cyfrifoldeb cynhyrchydd y gwastraff yw gwirio cyflwr pob Winchester a chynhwysydd cyn gwaredu gwastraff. Mae'n rhaid i Golegau/Unedau Gwasanaeth Proffesiynol/grwpiau ymchwil gael gafael yn eu poteli gwastraff neu eu Winchester eu hunain i waredu gwastraff. e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am fanylion

**Ni ddylid gorlenwi cynwysyddion gwastraff (gwydr neu blastig).** Ni ddylid byth eu llenwi mwy na 3/4. Os na chaiff y gofyniad hwn ei fodloni, ni fydd y cynwysyddion gwastraff yn cael eu derbyn yn y storfa.

Mae arweiniad o ran cynwysyddion a phecynnu addas wedi'i nodi mewn taflenni data diogelwch cemegol unigol.



*Ffigur 2. Y terfyn uchaf o ran llenwi cynhwysydd gwastraff a chanlyniadau gorlenwi a defnyddio Winchesters gwydr yn anghywir.*

**Rhaid storio a gwahanu'r holl gynwysyddion gwastraff llawn yn gywir yn y fan a'r lle yn ôl eu peryglon hyd at yr adeg y maent i'w dwyn i'r storfa gwastraff peryglus i'w gwaredu**

### Sachau Coch ar gyfer Gwastraff Soled a Halogwyd gan Gemegau

Dylai'r holl sachau coch gynnwys soledau sydd wedi'u halogi gan gemegau, megis cyfarpar diogelwch personol a thywelion papur glas, papurau hidlo etc. Ni ddylid rhoi unrhyw eitemau miniog[4] nac eitemau eraill sy'n debygol o dorri'r sach yn y sach goch. Ni ddylai fod unrhyw dyllau neu rwygau yn y sach wrth iddynt gyrraedd y storfa. Os oes angen, defnyddiwch ddwy sach goch, un y tu mewn i'r llall, i atal gwastraff rhag cael ei ollwng. **Rhaid bod Label Gwastraff Cemegol wedi'i gwblhau ar bob sach.** Darllenwch **WMGN21 - Soledau Labordy wedi'u Halogi gan Gemegau** am arweiniad pellach.

### Gwastraff soled (heblaw am mewn sach goch)

Rhaid pecynnu'r holl wastraff cemegol soled, e.e. powdrau, cynnyrch, yn briodol ac yn ddiogel, yn unol â'r daflen data diogelwch a'r canllawiau defnyddio. Mae hyn er mwyn sicrhau cludiant diogel i'r storfa gwastraff cemegol i'w waredu.

### 4.2.5 Cam 5 - Trosglwyddo i'r Storfa Gwastraff Cemegol

**Rhaid i unrhyw gemegolion â'r priodweddau peryglus canlynol gael eu casglu'n uniongyrchol o'r labordai;**

- **HP=1 (Ffrwydrol) e.e. Asid Picrig**
- **HP-6 (Gwenwynig, yn benodol wrth anadlu) e.e. Asid Hydrofflworig**

[4]Darllenwch WMGN22 a WMGN23

Fodd bynnag, bydd y Tîm Cynaliadwyedd yn adolygu pob llwyth fesul achos, gan ddibynnu ar y crynodiad.

Ceir dwy storfa gwastraff cemegol ar safleoedd y Brifysgol a dangosir eu lleoliadau yn Atodiad 1.

- Lleolir **Storfa Gwastraff Cemegol Grove ar Gampws Parc Singleton** rhwng Grove (Adeilad 12) a Glyndŵr (Adeilad 11.1) **Bydd y storfa'n cael ei hagor gan y tîm Cynaliadwyedd bob dydd Iau rhwng 10am a 10.30am i'r rhai hynny sydd â chaniatâd i waredu gwastraff.** Bydd rhaid i'r holl gontractwyr sy'n defnyddio'r storfeydd (os nad ydynt yng nghwmni aelod o'r Tîm Cynaliadwyedd) gwblhau cyflwyniad i'r Storfa Gemegol cyn ei defnyddio.
- Lleolir **Storfa Gwastraff Cemegol Campws y Bae** yn yr Iard Gwasanaeth Peirianneg. **Bydd y storfa'n cael ei hagor gan y tîm Cynaliadwyedd bob dydd Mercher rhwng 11am a 11.30am i'r rhai hynny sydd â chaniatâd i waredu gwastraff.**

I ddod â gwastraff i'r storfa, rhaid i ddefnyddwyr gael cadarnhad ac amser penodol gan y tîm Cynaliadwyedd ymlaen llaw.

### Gofynion cludo gwastraff cemegol:
### DILLAD DIOGELU PERSONOL (PPE)

**Rhaid** i unigolion sy'n dod â gwastraff i Storfeydd Cemegol Singleton a Champws y Bae wisgo'r PPE priodol gan gynnwys côt labordy, menig ac esgidiau caeedig.

**Dyma ofyniad gorfodol, a bydd mynediad yn cael ei wrthod os nad yw'r defnyddiwr yn cadw at ofynion cyfarpar diogelu personol**

### Trafnidiaeth

**Rhaid cludo'r holl eitemau gwastraff mewn modd diogel, mewn cludydd Winchester neu ar droli bwnd.**

Os nad oes gennych fynediad at gludydd Winchester neu droli bwnd, gallwch archebu un o'r Storfa Gwastraff Cemegol ar bob campws wrth gyflwyno cais am amser gwaredu.



*Ffigur 3: Troli bwnd Grove / Troli bwnd y Bae*

Rhaid dod â chopi papur o'r Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol gyda'r llwyth.

## Prosesu a Chasglu Gwastraff i'w Waredu oddi ar y Safle

Caiff gwastraff cemegol y Brifysgol ei gasglu gan gontractwr gwastraff peryglus cofrestredig, sy'n meddu ar yr holl hawlenni a thrwyddedau angenrheidiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cludir gwastraff y Brifysgol i orsaf trosglwyddo gwastraff peryglus gofrestredig cyn ei gludo i gyfleusterau arbenigol sy'n niwtraleiddio, yn llosgi neu'n paratoi'r gwastraff cemegol i'w ailddefnyddio'n ddiwydiannol.

## 5 Cost Gwaredu

Codir taliadau ar denantiaid y Brifysgol am waredu gwastraff cemegol. Os yw tenantiaid am gael gwared ar wastraff cemegol, rhaid iddynt lenwi'r **Ffurflen Gwaredu Gwastraff Cemegol** a'i hanfon drwy e-bost i **estates-waste@abertawe.ac.uk** i drafod trefniadau a'r costau tebygol.

Os oes gan Golegau ac Unedau Gwasanaeth Proffesiynol gyfanswm sylweddol o gemegau i'w gwaredu (h.y. gwacáu labordy), gan gynnwys cyfanswm sylweddol o gemegau HP1 a HP6 i'w casglu'n uniongyrchol, bydd rhaid iddynt ddarparu côd cost am y gwasanaeth.

Am ragor o arweiniad, e-bostiwch **Estates-Waste@abertawe.ac.uk**

## 6 Effeithiau a Gweithredoedd ar Ddiffyg Cydymffurfio

Gall methu cydymffurfio â'r weithdrefn hon arwain at y canlynol:

- Diffyg cydymffurfiaeth â gofynion EcoCampus a safon ISO 14001:2015.

Mae gweithredu'n groes i'r weithdrefn hon yn cael sylw yn y weithdrefn **10.1 Anghydffurfiaeth a Chamau Unioni**

## 7 Rheoli Fersiynau

| Dyddiad | Fersiwn | Diweddaru |
|---|---|---|
| XX/XX/XX | 1 | Dogfen wreiddiol |
| XX/XX/XX | 2 | - Templed diwygiedig<br>- Adolygwyd, diweddarwyd ac ehangwyd gwybodaeth |
| 26.01.2021 | 3 | - Diweddaru hyperddolenni amrywiol a newid amserau agor y storfa |
| 04.08.2023 | 4 | - Nid Veolia yw'r prif gontractwr mwyach, Mitie yw'r darparwr gwasanaeth erbyn hyn<br>- Yr amserau agor wedi'u diweddaru |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Ychwanegwyd mwy o fanylion am gludo, creu 4.2.6 |
| 14/05/2025 | 5 | - Dilëwyd y dyddiad adolygu – ni fydd y gweithdrefnau yn cael eu diweddaru o hyn allan oni bai bod gweithgaredd neu ddeddfwriaeth yn newid.<br>- Cyfeiriadau at y Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu wedi'u newid i'r Tîm Cynaliadwyedd<br>- Diweddaru diwrnodau agor y storfa gwastraff cemegol oherwydd newid personél<br>- Mân newidiadau i fformatio a geiriad.<br>- Tynnwyd Atodiad 2<br>- Ychwanegwyd atodiad ar gyfer nodi priodweddau peryglus |
| 17/11/2025 | 6 | - Pwysleisiwyd gofynion cyfarpar diogelu personol gorfodol wrth ddod â gwastraff i storfeydd.<br>- Egluro labelu ac enghreifftiau ar gyfer cynhyrchion ag enwau masnach a chemegau anhysbys.<br>- Rhagor o arweiniad ar gynwysyddion gwastraff cemegol, yn enwedig defnyddio hen gynwysyddion cemegol ar gyfer gwastraff.<br>- Wedi cynnwys gofynion cap awyredig ar gyfer gwastraff hylifol.<br>- Mân newidiadau i fformatio a geiriad. |

# Atodiad A - Mapiau o Leoliadau'r Storfeydd Gwastraff Cemegol

Lleolir Storfa Gwastraff Cemegol Grove ar Gampws Parc Singleton rhwng Grove (Adeilad 12) a Glyndŵr (Adeilad 11.1)




**BUILDINGS**

| | |
|---|---|
| Finance Building | 1 |
| Singleton Abbey & Stableblock | 2 |
| Keir Hardie Building | 3 |
| James Callaghan Building | 4 |
| 1937 Library | 5 |
| Mosque | 6 |
| Library | 7 |
| Faraday Building | 8.1 |
| Faraday Tower | 8.2 |
| Talbot Building | 8.3 |
| Wallace Building | 9 |
| Margam Building | 9.4 |
| Botanic Compound | 10 |
| Glyndŵr Building | 11.1 |
| Vivian Tower | 11.2 |
| Data Science Building | 11.4 |
| Grove Building | 12 |
| Richard Price Building | 14 |
| Amy Dillwyn Building | 15 |
| Haldane Building | 16 |
| Fulton House | 17 |
| Union House | 18 |
| Digital Technium | 24 |
| Taliesin Arts Centre & Egyptology Centre | 32 |
| Institute of Life Science 1 | 33 |
| Llŷr Building | 34 |
| Institute of Life Science 2 Centre for NanoHealth | 36 |
| ORACLE | 43 |


Buildings

Student Residences

**SERVICES AND FACILITIES**

- Visitors Car Park (Pay to Park)
- Staff Car Parks
- Accessible Parking
- Bus Stops
- Santander Cycles
- Taxis
- Cycle Park
- Food & Drink
- Baby Changing Facilities
- Students' Union
- Nursery
- Defibrillator
- The Lighthouse (Chaplaincy Centre)
- Shower
- Super
- The Sl & Cor
- ATM
- Dentis
- Occu
- Docto

Lleolir Storfa Gwastraff Cemegol Campws y Bae yn Iard Wasanaeth Peirianneg, ar ochr ogleddol adeilad Dwyreiniol Peirianneg (Adeilad 3)





Heb ei rheoli os yw'n cael ei hargraffu

## Atodiad 2. Nodi priodweddau peryglus

| Pictogram | Categorïau Peryglon Corfforol | Priodweddau’r Perygl |
|---|---|---|
|  | Deunyddiau ffrwydrol ansefydlog | Deunyddiau Ffrwydrol HP1 |
| | Deunyddiau Ffrwydrol, adrannau 1.1, 1.2, 1.3, 1.4 | |
| | Sylweddau a chymysgeddau hunan-adweithiol, mathau A, B | |
| | Perocsidau organig, mathau A, B | |
|  | Nwyon ocsideiddio, categori 1 | HP 2 Ocsideiddio |
| | Hylifau ocsideiddio, categorïau 1, 2, 3 | |
| | Solidau ocsideiddio, categorïau 1, 2 | |
|  | Nwyon fflamadwy, categori 1 | HP 3 Fflamadwy |
| | Erosolau fflamadwy, categorïau 1, 2 | |
| | Hylifau fflamadwy, categorïau 1, 2, 3 | |
| | Solidau fflamadwy, categorïau 1, 2 | |
| | Sylweddau a chymysgeddau hunan-adweithiol, mathau B, C, D, E, F | |
| | Hylifau pyrofforig, categori 1 | |
| | Solidau pyrofforig, categori 1 | |
| | Sylweddau a chymysgeddau hunan-wresogi, categorïau 1, 2 | |
| | Sylweddau a chymysgeddau sy'n allyrru nwyon fflamadwy pan fyddant yn dod i gysylltiad â dŵr, categorïau 1, 2, 3 | |
| | Perocsidau organig, mathau B, C, D, E, F | |

| Pictogram | Categorïau Peryglon Corfforol | Priodweddau'r Perygl |
|---|---|---|
| Dim pictogram | Ffrwydrol, adran 1.5 | HP 15 |
| | Ffrwydrol, adran 1.6 | Ddim yn berthnasol |
| | Nwy fflamadwy, categori 2 | HP 3 Fflamadwy |
| | Sylweddau a chymysgeddau hunan-adweithiol, math G | Ddim yn berthnasol |
| | Perocsidau organig, math G | Ddim yn berthnasol |
|  | Nwyon cywasgedig | Dim priodweddau peryglus |
| | Nwyon hylifedig | |
| | Nwyon hylifedig rheweiddiedig | |
| | Nwyon toddedig | |
|  | Cyrydu'r croen, categori 1A | HP 4 Llidus<br>HP 8 Cyrydol |
| | Cyrydu'r croen, categorïau 1B ac 1C | HP 8 Cyrydol |
| | Niwed difrifol i'r llygaid, categori 1 | HP 4 Llidus |
| | Cyrydol i fetelau | Ddim yn berthnasol |
|  | Tocsigedd acíwt (geneuol, croenol, mewnanadliad), categorïau 1, 2, 3 | HP 6 Tocsigedd Acíwt |
| | Sensiteiddio resbiradol, categori 1 | HP 13 Sensiteiddiol |
| | Mwtagenedd cell germ, categorïau 1A, 1B, 2 | HP 11 Mwtagenaidd |
| | Carsinogenigrwydd, categorïau 1A, 1B, 2 | HP 7 Carsinogenig |

| Pictogram | Categorïau Peryglon Corfforol | Priodweddau'r Perygl |
|---|---|---|
|  | Tocsigedd atgenhedlol, categorïau 1A, 1B, 2 | HP 10 Tocsig ar gyfer atgenhedlu |
| | Tocsigedd i organau targed penodol yn dilyn un cysylltiad, categorïau 1, 2 | HP 5 Tocsigedd i organau targed penodol/Tocsigedd mewnanadlu |
| | Tocsigedd i organau targed penodol yn dilyn cysylltiad mynych, categorïau 1, 2 | |
| | Perygl mewnanadlu, categorïau 1, 2 | |
|  | Tocsigedd acíwt (geneuol, croenol, mewnanadliad) categori 4 | HP 6 Tocsigedd Acíwt |
| | Llidus i'r croen, categorïau 2, 3 | HP 4 Llidus |
| | Llid y llygaid, Categori 2 | |
| | Sensiteiddio'r croen, categori 1 | HP 13 Sensiteiddiol |
| | Tocsigedd i organau targed penodol yn dilyn un cysylltiad, categori 3. Llidus i'r llwybr resbiradol effeithiau narcotig | HP 5 Tocsigedd i organau targed penodol/Tocsigedd mewnanadlu |
| Dim pictogram | Tocsigedd acíwt (geneuol, croenol, mewnanadliad), categori 5 | Ddim yn berthnasol |
| | Tocsigedd atgenhedlol - effeithiau ar laethiad neu drwy hynny | Ddim yn berthnasol |
| Nid yw'n destun gofynion labelu cemegol | Ddim yn berthnasol | HP 9 Heintus |
|  | Peryglus i'r amgylchedd dyfrol - perygl dyfrol acíwt, categori 1 | HP 14 Ecodocsig |
| | Peryglus i'r amgylchedd dyfrol - perygl dyfrol hirdymor, categori 1, 2 | |

| Pictogram | Categorïau Peryglon Corfforol | Priodweddau’r Perygl |
|---|---|---|
|  | Peryglus i'r haen osôn | HP 14 Ecodocsig |
| Dim pictogram | Peryglus i'r amgylchedd dyfrol - perygl dyfrol acíwt - categorïau 2, 3 | HP 14 Ecodocsig |
| | Peryglus i'r amgylchedd dyfrol - perygl dyfrol hirdymor, categorïau 3, 4 | HP 14 Ecodocsig |